Technoleg Glyfar,
Gwnaethpwyd i Ofalu



# Canllaw Cyfeirio Cyflym **Notifier+**

we-cair.com

# Cynnwys


- Tudalen 3 - Sefydlu a Gwefru
- Tudalen 4 - Troi Ymlaen/I Ffwrdd
- Tudalen 5 - Ddewislen Gosodiadau
- Tudalen 6 - Rhaglennu Dyfeisiau Newydd
- Tudalen 7 - 'Activity'
- Tudalen 8 - 'Divert'
- Tudalen 9 - 'Auto Clear'
- Tudalen 10 - SOS
- Tudalen 11 - 'Walk Test'
- Tudalen 12 - 'Clone'
- Tudalen 13 - 'Language'
- Tudalen 14 - PIN
- Tudalen 15 - Golygu / Dileu Dyfeisiau
- Tudalen 16 - 'Lock'
- Tudalen 17 - Modd Gosodwr




# Sefydlu a Gwefru

- Mewnosod y USB mini i gefn yr orsaf gwefru a'r plwg USB i'r cyflenwad pŵer.
- Mewnosod y cyflenwad pŵer USB i'r soced trydanol. Mi fydd y LED ambr ar yr orsaf gwefru yn goleuo, fflachio tair gwaith ag yn fuan wedyn, diffodd.
- Rhowch y Notifier+ yn yr orsaf gwefru. O fewn eiliadau, mi fydd yna bîp ac mi fydd y statws gwefru yn newid o 'Ready' i 'Charging', wedyn mi fydd i fodd gorffwys, os mae'r Notifier+ ymlaen.
- Pan mae'r batri yn isel, mi fydd yr Notifier+ angen 2.5 awr i wefru'n llawn. Os mae'r Notifier+ i ffwrdd, ni fydd yna hysbyswedd, ond mi fydd yn gwefru.



# Troi Ymlaen/I Ffwrdd

- I droi'r Notifier+ ymlaen, pwyswch a dal lawr y botwm i ffwrdd/ymlaen am 6 eiliad.
- I droi'r Notifier+ i ffwrdd, pwyswch a dal lawr y botwm ymlaen/i ffwrdd am 6 eiliad yna dewiswch 'Yes' i gadarnhau diffodd y ddyfais.
- Pwyswch y botwm ymlaen/i ffwrdd i roi'r sgrin i mewn i fodd gorffwys, ag eto i'w ddeffro.
- Mi fydd yn Notifier+ yn mynd i fodd gorffwys yn awtomatig os na fydd y ddyfais wedi cal eu defnyddio o fewn yr amser oedi sgrin.
- Mae hefyd yn bosibl analluogi'r botwm ymlaen/diffodd **(gweler 'Lock')**.



# Ddewislen Gosodiadau

**‘Screen’**

- 'Brightness' – Newidiwch ddisgleirdeb y sgrin o 1 (lleiaf llachar) i 5 (mwyaf llachar).
- 'Strobe' – Os yw'r opsiwn strôb yn cael ei alluogi, bydd y sgrin yn fflachio pan fydd y Notifier+ yn rhoi rhybudd. Gellir galluogi/analluogi'r strôb drwy wasgu'r botwm (botwm gwyn = strôb wedi'i analluogi, botwm oren = strôb wedi'i alluogi).

**‘Sound’**

- 'Volume' – Newidiwch y sain o 0 (distaw) i 3 (uchelaf).
- 'Ascend' – Gellir galluogi/analluogi'r opsiwn 'Ascend' drwy wasgu'r botwm (botwm gwyn = 'Ascend' wedi'i analluogi, botwm oren = 'Ascend' wedi'i alluogi).
- 'Vibrate' – Gellir galluogi/analluogi'r opsiwn Dirgrynu drwy wasgu'r botwm (botwm gwyn = dirgrynu wedi'i analluogi, botwm oren = dirgrynu wedi'i alluogi).

**‘Time’ / ’Date’ / ’Alarm Clock’**

- 'Time' – Gosodwch amser y ddyfais.
- 'Date' – Gosodwch ddyddiad y ddyfais.
- 'Alarm Clock' – Dewiswch y botwm ymlaen/i ffwrdd a gosodwch yr oriau a'r munudau i'r amser dymunol.



# Rhaglennu Dyfeisiau Newydd

- Ar y sgrin gartref, dewiswch 'Settings' ac yna 'Admin'
- Dewiswch 'New Device'
- ‘Pair Device’. Pwyswch 'OK' i barhau.
- 'Activate Device' (actifadu'r ddyfais o fewn 30 eiliad).
- Os yw’r ID yn gywir, pwyswch 'Yes'. Os nad ydyw, dewiswch 'No' a dechreuwch eto.
- Nodwch Enw gan ddefnyddio’r bysellbad neu dewiswch enw presennol.
- Nodwch Leoliad gan ddefnyddio’r bysellbad neu dewiswch leoliad presennol.
- 'Activity On/Off' – Dewiswch alluogi neu analluogi 'Activity' ar gyfer y ddyfais hon
- Pan fydd 'Activity' wedi’i alluogi, gallwch osod amseroedd penodol i ddechrau a gorffen monitro. Yn ystod yr oriau hyn, bydd y ddyfais yn actifadu’r Notifier+. Gellir neilltuo amserlen 'Activity' unigryw i bob dyfais.
- 'Tone Type'. Dewiswch un o chwe tôn
- 'Customise Device?' Os dewisir 'No', bydd math y ddyfais yn aros yr un fath â’r ddyfais ac actifadu. Os dewisir 'Yes', gallwch newid math y ddyfais.
- 'Device Info'. Dyma grynodeb o’r gosodiadau a ddewiswyd. Tapiwch 'OK' i gwblhau’r broses baru.
- 'Using Divert? Pair to Device?' Os yw’r opsiwn 'Divert' yn cael ei ddefnyddio, tapiwch 'Yes' ar y cam hwn a’i baru gyda’r ddyfais dderbyn. Os nad oes angen 'Divert', pwyswch 'No'.



CAIR

Technoleg Glyfar,
Gwnaethpwyd i Ofalu

# ‘Activity’

- Mae'r nodwedd 'Activity' yn disodli'r swyddogaeth 'Day Mode' wreiddiol. Mae'n caniatáu i'r Notifier+ fonitro dyfeisiau cysylltiedig yn ystod cyfnodau amser diffiniedig, gyda phob dyfais yn gallu gweithredu yn ôl ei hamserlen unigol ei hun.
- Wrth gofrestru dyfais newydd, os oes angen defnyddio 'Activity', dewiswch 'On' pan ofynnir i chi a gosodwch yr amseroedd dechrau a gorffen. Yn ystod yr oriau hyn, bydd y ddyfais yn actifadu'r Notifier+. I fonitro dyfais yn barhaus, dewiswch 'Activity Off'.
- **Pwysig**: Os yw unrhyw ddyfais gysylltiedig yn defnyddio modd 'Activity', rhaid hefyd alluogi'r botwm 'Inactive/Active' yn y ddewislen Opsiynau.
- **Nodyn**: Ni ddylid defnyddio Tonau 5 a 6 gyda dyfeisiau sydd â modd 'Activity' wedi'i alluogi.



# 'Divert'

- Gellir defnyddio'r swyddogaeth 'Divert' fel opsiwn wrth gefn os nad yw gofalwr yn gallu ymateb i rybudd bob amser. Mae'r nodwedd Divert yn caniatáu i rybudd heb ei gydnabod cael ei anfon ymlaen i system dderbyn gydnaws arall os na chaiff ei gydnabod o fewn y cyfnod 'Divert Delay'.
- Wrth raglennu dyfais newydd, os oes angen 'Divert', sicrhewch fod 'Yes' wedi'i ddewis pan fydd y cwestiwn 'Using Divert? Pair to Device' yn ymddangos.
- I osod modd 'divert' gydag uned wasgaredig, rhowch y ddyfais yn y modd cofrestru – neu i Notifier+ arall, dilynwch y cyfarwyddiadau Rhaglennu Dyfeisiau Newydd. Pwyswch OK pan fydd y ddyfais sy'n derbyn yn barod i dderbyn.
- Bydd y Notifier+ yn cadarnhau'r trosglwyddiad.
- Yn ogystal â'r camau uchod, sicrhewch fod 'Divert' wedi'i alluogi yn y ddewislen Radio.
- O'r ddewislen 'Admin', dewiswch 'Options' ac yna Radio. Sicrhewch fod 'Divert' wedi'i alluogi (botwm gwyn = anabl, botwm oren = wedi'i alluogi).
- Ar ôl galluogi 'Divert', bydd cwestiwn yn ymddangos ar y sgrin yn gofyn 'Do you want to use away mode?'. Os dewisir 'Yes', bydd y botwm 'Away' yn ymddangos yn y ddewislen 'Settings'.
- Mae'r botwm 'Away' yn caniatáu i'r gofalwr nodi eu bod i ffwrdd ac yn diystyru'r cyfnod 'Divert Delay'.
- Dewiswch 'Divert Delay' i ddewis y cyfnod amser cyn i actifadu cael ei anfon ymlaen.



# 'Auto Clear'

- Mi ellir defnyddio'r opsiwn yma pan fydd yna dwy neu fwy Notifier yn cael eu defnyddio a'i gilydd.
- Mae'n bosibl troi'r opsiwn 'Auto Clear' ymlaen/i ffwrdd drwy bwyso'r botwm (botwm gwyn = i ffwrdd, botwm oren = ymlaen).
- Os mae 'Auto Clear' ymlaen ar bob Notifier, pan mae un Notifier yn cydnabod rhybudd, mi fydd yn gyrru signal i bob Notifier arall i glirio i lawr.
- Mi fydd unrhyw Notifier arall yn dangos rhif o'r Notifier sydd wedi derbyn y rhybudd.
- **Nodyn**: I 'Auto Clear' weithio, mae rhaid bod bob synhwyrydd wedi eu paru gyda phob Notifier yn y grŵp.



# SOS

- Mae’r nodwedd 'SOS' yn caniatáu i ofalwr ofyn am gymorth gan Notifier+ eraill
- O’r ddewislen 'Admin', dewiswch 'Options' ac yna Radio.
- Pan fydd wedi’i alluogi, bydd botwm SOS mawr yn ymddangos ar y sgrin gartref
- I baru gyda Notifier+ eraill, defnyddiwch y ddewislen 'New Device' ar y Notifier sy’n derbyn.
- I baru’r botwm SOS â dyfais allanol, cyfeiriwch at y canllaw rhaglennu.



CAIR Technoleg Glyfar,
Gwnaethpwyd i Ofalu

# ‘Walk Test’

- Wrth ddefnyddio'r Notifier+ mewn eiddo mwy, mae'n hanfodol cynnal prawf ystod er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio ar draws y safle
- Bydd 'Walk Test' yn gweithio gydag unrhyw ddyfais gydnaws, nid yn unig y rhai sydd wedi'u paru â'r Notifier+.
- Pan fydd dyfais yn cael ei hactifadu yn ystod 'Walk Test', bydd y Notifier+ yn gwneud sain a bydd y sgrin yn dangos y wybodaeth ganlynol am y ddyfais:
    - ‘Signal level’ (001 - 255)
    - ‘Unique decimal identity’ (Yr ID sbardun radio)
    - ‘Unique hexadecimal identity’
    - ‘Device Type’ Nodyn: Mi fydd y ddyfais wir yn ymddangos
    - ‘Battery status’
    - ‘Repeater number’ (mae hyn yn ddefnyddiol pan mae'r Orion yn cael eu defnyddio)

- Bydd y botwm 'Reset' yn clirio canlyniadau profion blaenorol o'r sgrin. I adael 'Walk Test', pwyswch yr eicon ymadael.
- Ni ellir derbyn rhybuddion gwirioneddol pan fydd y Notifier+ yn y modd 'Walk Test', ac nid oes swyddogaeth amser darfod (timeout) ar gael.
- Os yw canlyniad y prawf ystod yn dangos bod yr eiddo yn rhy fawr ar gyfer y Notifier+, rydym yn argymell defnyddio ein hestynnydd pellter gweithio, Orion, sy'n cynyddu ystod pob dyfais hyd at 1km mewn llinell welediad uniongyrchol.



# ‘Clone’

- Mae’r nodwedd hon yn caniatáu clonio pob dyfais a gosodiad sydd wedi’i baru o un Notifier+ i un arall (neu i sawl uned) yn ddiwifr.
- Llywiwch drwy’r dewislenni’n ofalus, gan fod y sgrin yn gallu dod i ben (time out) os caiff ei gadael yn segur.
- Ar ôl dewis 'Devices' neu 'Options', dewiswch 'Transmit' ar y Notifier+ sy’n dal y data a 'Receive' ar yr uned(au) sy’n ei dderbyn. Sicrhewch fod 'Receive' wedi’i ddewis cyn dechrau trosglwyddo.
- Wrth drosglwyddo'r dyfeisiau, bydd y Notifier+ sy’n anfon yn dangos nifer y dyfeisiau, tra bydd yr uned(au) sy’n derbyn yn dangos nifer y rhai sydd wedi’u derbyn.
- Dim ond dyfeisiau newydd sy’n cael eu cadw; caiff dyblygiadau eu hanwybyddu.
- **Pwysig:** Nid yw’n bosibl clonio rhwng y Notifier+ a Notifier safonol



# 'Language'

- Mae gan y Notifier+ sawl opsiwn iaith: Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg, Sbaeneg, Iseldireg a Norwyeg.
- Mae'r iaith gyfredol yn cael ei nodi gan y botwm oren wedi'i lenwi.
- Caiff opsiynau iaith eu dewis drwy wasgu'r eicon dymunol. Gellir cyrchu ieithoedd ychwanegol drwy ddefnyddio'r eiconau sgrolio i'r chwith neu i'r dde.
- **Nodyn**: Os bydd ailosodiad ffatri yn digwydd, bydd yr iaith yn dychwelyd i'r Saesneg yn ddiofyn.



# PIN

- Mae gan y Notifier+ yr opsiwn i ofyn am PIN i gyrchu'r ddewislen Gosodiadau.
- Pan fydd yr opsiwn hwn wedi'i alluogi (botwm oren = wedi'i alluogi, botwm gwyn = wedi'i analluogi), mae'r botwm ar y sgrin gartref yn newid o 'Settings' i 'PIN'.
- Mae'r PIN arbennig hwn yn wahanol i'r PIN 'Admin', a rhaid ei roi i gael mynediad i'r ddewislen Gosodiadau pan fydd wedi'i alluogi.
- **Nodyn**: Os oes angen, cysylltwch â Cair i gael y PIN i'r ddewislen Gosodiadau. Nid yw'r PIN hwn yn addasadwy.



# Golygu / Dileu Dyfeisiau

- Ar y sgrin gartref, dewiswch 'Settings' ac yna 'Admin. Dewiswch 'History' ag yna 'View Devices'.
- Yma, gallwch sgrolio drwy'r holl synwyryddion sydd wedi'u rhaglennu - dewiswch yr un yr hoffech ei olygu / ei ddileu.
- Os ydych am ddileu'r synhwyrydd, dewiswch 'Delete' - bydd angen nodi'r rhif PIN i gadarnhau.
- I olygu unrhyw wybodaeth, dewiswch 'Edit' a gellir diweddaru'r holl wybodaeth a ddewiswyd yn flaenorol.

- Yn y ddewislen 'History', gellir hefyd ddod o hyd i'r 'Event Log' lle gellir gweld hanes rhybuddion ar y sgrin. Mae'r 964 digwyddiad diweddaraf yn cael eu cadw ar y Notifier+.



# 'Lock'

- Mae'r Notifier+ yn gallu cloi'r botwm I ffwrdd/Ymlaen er mwyn atal diffodd y pŵer yn ddamweiniol neu'n fwriadol.
- I alluogi neu analluogi'r nodwedd hon, defnyddiwch y botwm 'Lock' (botwm oren = wedi'i alluogi, botwm gwyn = wedi'i analluogi).



Technoleg Glyfar,
Gwnaethpwyd i Ofalu

# Modd Gosodwr

- Mae’r Notifier+ yn cynnwys Modd Gosodwr, sy’n rhoi amser ychwanegol i osodwyr raglennu’r ddyfais.
- Mae’r modd hwn yn cael ei gyrchu drwy roi PIN arbennig gan ddefnyddio’r bysellfwrdd.
- Yn Fodd Gosodwr, mae’r sgrin yn aros ymlaen am 10 gwaith yn hirach na’r 'Screen Delay' sydd wedi’i osod.
- Er enghraifft, os yw’r oedi sgrin yn 60 eiliad, bydd Modd Gosodwr yn para 600 eiliad. Mae’r modd yn dod i ben yn awtomatig ar ôl y cyfnod hwn, neu os yw’r botwm Ymlaen/Diffodd yn cael ei wasgu am amser fur.
- **Nodyn**: Cysylltwch â Cair i gael y PIN Modd Gosodwr. Nid yw’r PIN hwn yn addasadwy.



CAIR

Smart Technology,
Made to Care

# Diolch

Technoleg Glyfar,
Gwnaethpwyd i Ofalu

www.we-cair.com

01422 399155 | hello@we-cair.com